

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 6 Ebrill, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cyngorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr C.A. Cave, R. Nugent-Finn, A.C. Parker and L.O. Rowlands.

Hefyd yn bresennol: Cyngorydd E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol a Chynllunio), C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro), G. Doyle, W. Hennessy, V. John a H. Smith (Cynrychiolwyr o'r Gweithgor Tenantiaid / Panel).

1019 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

1020 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr J.C. Bird, B.E. Brooks, S.M. Hanks a S.D. Perkes.

1021 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

1022 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1023 DATRYSIAD DIGIDOL GWASANAETHAU TAI AC ADEILADU A C1V –

Gwnaed y cyflwyniad gan y Partneriaid Gwella Busnes i'r llwyfan digidol profiad cwsmeriaid newydd, Rheolaeth Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC) Oracle a'r diweddariad yn sgil hynny i'r system Tai ac Adeiladu newydd.

Yr oedd yr ateb digidol newydd a weithredir gan y Cyngor yn ganlyniad i nifer o sbardunau a ffactorau gan gynnwys:

- Yr angen i gwrdd â disgwyliadau dinasyddion sy'n newid ar draws yr holl sianeli cyswllt, sydd yn cynnwys mwy o alw am i wasanaethau ar-lein gael eu darparu gan y Cyngor. Byddai'r system newydd hon yn helpu i roi gwell profiad ar-lein ac i sicrhau gwell mynediad at wasanaethau ar-lein i holl drigolion y Fro yn ogystal â gwella'r gwasanaethau a ddarperir dros y ffôn, trwy e-bost ac yn bersonol.
- Byddai trwydded gyfredol system RhCC Oracle yn dod i ben yn haf 2022 ac ni fyddai'n cael ei adnewyddu. Yr oedd y system bresennol yn heneiddio ac yr oedd angen symud o'r prosesau seiliedig ar bapur sydd yn cymryd llawer o amser, a hefyd leihau costau trwy awtomeiddio.
- Mae hyn hefyd ynghlwm â siwrne Trawsnewid Digidol y Cyngor a byddai'n help i ddarparu trafodion digidol o un pen i'r llall er mwyn rhoi gwell boddhad i'r cwsmeriaid, cydymffurfio ac adolygu, ac ar yr un pryd gadw'r gallu i gael trafodion wyneb yn wyneb a thros y ffôn oedd yn dal yn bwysig i'r trigolion hynny nad oedd yn medru defnyddio technoleg ddigidol, neu'n methu ei gyrchu.
- Byddai'r Cyngor yn defnyddio system gyflwyno gwasanaethau ar-lein govService, sy'n cael ei defnyddio eisoes gan lawer o awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig.

Amlinellwyd y system newydd a'i dangos i'r Aelodau:

- Byddai'r system yn rhoi gwell profiad diwniâd i gwsmeriaid a staff a llif gwaith llyfnach a mwy effeithiol.
- Byddai hwb gwasanaeth cwsmeriaid, porthol cwsmeriaid, a ffurflenni ar-lein clyfar ar gael, yn ogystal â phorthol staff. Gallai'r rhain oll siarad â'i gilydd a buasent wedi eu hintegreiddio er mwyn rhoi profiad 'un stop' i gwsmeriaid a staff fel ei gilydd, gyda diweddariadau rheolaidd wedi eu hawtomeiddio hefyd ar gael i gwsmeriaid am gynnydd eu ceisiadau.
- Cynhaliwyd 'lansiad meddal' o'r system newydd ar 4 Rhagfyr i drafodion dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar-lein, gyda'r Gwasanaethau Priffyrdd, Parciau a Thiroedd a Rheoli Gwastraff yn mynd yn fyw gyda'r system fel rhan o'u gwaith beunyddiol. Yr oedd gwneud hyn fesul gwasanaeth yn golygu bod modd dysgu gwersi, a gwneud gwelliannau graddol wrth i'r system gael ei chyflwyno.
- Yr oedd 42 o brosesau fu ar gael ar Oracle yn awr yn fyw, gyda rhyw 93 o brosesau'n weddill i fynd yn fyw ar govService erbyn diwedd haf 2022.
- Yr oedd rhyw draean o drafodion cwsmeriaid dan system newydd govService yn hunanwasanaeth, oedd yn arwydd clir o'r galw am wasanaethau ar-lein o'r fath.
- Yr oedd cyfnod nesaf y system newydd yn cynnwys dylunio, prototeip, profi ac adeiladu'r prosesau a'r gwasanaethau sydd weddill (gan gynnwys Tai) a throsglwyddo'r union beth oedd ar Oracle, gyda'r un nodweddion a pheri ei fod ar gael ar govService ('codi a symud'). Hefyd, yr angen i gychwyn Cyfnod 2 am wella profiad y cwsmeriaid yn ogystal ag integreiddio Gwasanaethau Tai ac Adeiladu er mwyn darparu llwyfan diwniâd.

Canolbwyntiwyd wedyn ar lwyfan y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu:

- Yr oedd y systemau lluosog cyfredol a ddefnyddiwyd i gydgordio trwsio a gwasanaethau eraill i denantiaid, yn hen iawn a naill ai wedi cyrraedd diwedd eu hoes neu ar fin gwneud.
- Yn dilyn proses dendro, penodwyd un darparwr (NEC), gydag awgrym o ddyddiad cychwyn o 27 Ebrill, a byddai'r prosiect yn rhedeg am 12 i 18 mis gyda grwpiau ffocws staff yn cychwyn ym mis Mai.
- Byddai'r system integredig newydd yn seiliedig ar y cwmwl ac ar raglen seiliedig ar y we sy'n golygu y byddai'n hygyrch o unrhyw ddyfais, e.e. ffôn symudol, tabled a chyfrifiadur, yn ogystal â bod â rhyngwyneb hawdd ei defnyddio gan gwsmeriaid a staff. Hefyd, byddai elfen o hunanwasanaeth i'r cwsmer. Felly, byddai tenantiaid, pan fyddent yn cyrchu system govService, yn symud yn ddiwriad i'r system Gwasanaethau Tai ac Adeiladu ar-lein.
- Yr oedd y feddalwedd yn ffurfweddadwy a dwyieithog; felly, gallai Bro Morgannwg ei diweddarau a'i ffurfio yn union fel y mynnent i'r dangoswrdd fod, e.e. efallai y byddai angen dangoswrdd gwahanol i un Homes4U ar y tîm trwsio tai.
- Roedd y system yn caniatáu i'r Cyngor gyfathrebu gyda thenantiaid a chleientiaid gyda'i gilydd ac yn unigol trwy neges destun, e-bost neu lythyr.
- Yr oedd manteision y prosiect yn debyg i rai RhCC megis gwelliannau i gyflwyno gwasanaethau yn fwy effeithiol dan un system integredig gydag un cyflenwr ac yr oedd yn caniatáu i'r staff reoli cylch cyfan y dull o fyw a chynnal y 'llyn aur' gwybodaeth. Roedd ganddo hefyd gyfleuster dadansoddeg ac adrodd gwych.
- Gallai cwsmeriaid, unwaith iddynt gofnodi tasg drwsio, etc. dros y ffôn, wirio ar-lein trwy'r system newydd a gweld y wybodaeth a gofnodwyd ganddynt yn syth, yn ogystal ag adolygu hanes llawn eu cyfrif, taliadau, etc. pryd y mynnent. Byddai modd iddynt hefyd uwchlwytho/edrych ar ddogfennau ar-lein ac archebu, ail-drefnu a chanslo apwyntiadau. Byddai hyn yn helpu i atal canslo ar y funud olaf, a thrwy hynny ryddhau adnoddau staff.
- Byddai'r system newydd yn galluogi'r staff Gwasanaethau Tai ac Adeiladu i weithio'n fwy symudol, e.e., gallai swyddogion cynnal a chadw tasgau trwsio ar y safle o'u dyfais symudol, neu gallai swyddogion tenantiaeth fynd trwy gytundeb tenantiaeth neu waith papur gyda thenant ar y safle trwy ddyfais symudol.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

- Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn y canlynol –
 - Am lansio meddal y system RhCC newydd, cadarnhawyd bod hyn wedi digwydd ar 4 Rhagfyr, 2021 ac yr oedd wedi cynnwys 3 maes gwasanaeth.
 - O ran lansiad 'caled' llawn y system newydd, byddai hyn yn digwydd unwaith i'r holl wasanaethau gael eu symud o Oracle i govService ar y cyd ag ymgyrch gyfathrebu i'w hyrwyddo a chyfeirio trigolion at y porthol / system RhCC newydd.

- O ran y gwirfoddolwyr oedd yn rhan o brofi'r system newydd, yr oedd cyfanswm o 50 gyda chymysgedd o staff Cyngor Bro Morgannwg a'r Cynghorwyr, a roddodd adborth a mewnwelediad gwerthfawr i newid y prosesau, ar gynnwys a sut y byddai'r wybodaeth, etc. yn cael ei arddangos. Pan holwyd a oedd unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth yn rhan o hyn, esboniwyd bod llawer o staff y Cyngor yn drigolion a thenantiaid yn y Fro, felly yr oedd hyn yn ffordd gyflym a hawdd o gael defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan a rhoi adborth. Yn dilyn ymlaen o hyn yng Nghyfnod 2, pan wnaed y gwaith o ail-ddylunio'r broses, byddai'r Cyngor yn estyn allan i denantiaid a thrigolion yn gofyn eu barn ar y gwasanaethau, beth oedd o werth iddynt, pa ddeilliannau oeddent eisiau a sut yr oeddent yn cyfathrebu a'r Cyngor e.e., dros y ffôn. Teimlai'r Cynghorydd y gallai cynrychiolwyr tenantiaid a grwpiau cymunedol eraill helpu gyda'r profi a throsi i'r system newydd. Dywedwyd hefyd y byddid yn gofyn i gwsmeriaid y system newydd raddio eu profiad er mwyn gweld pa wasanaethau / prosesau oedd yn gwneud yn dda a pha rai oedd angen eu gwella.
- Pan holwyd a fyddai'r system hon yn disodli C1V, dywedwyd na fyddai hyn yn digwydd, ac os na fyddai pobl eisiau hunanwasanaeth, byddai modd iddynt o hyd alw C1V a byddai eu hymholiadau yn cael eu hychwanegu at y system ar-lein felly i'w datrys gan y timau perthnasol.
- Ynghylch a ellid ychwanegu dewis i'r systemau RhCC / Tai i adrodd am drais domestig, cam-drin neu broblemau esgeulustod, dywedwyd fod y systemau yn ddigon hyblyg i ganiatáu ychwanegu dewis o'r fath, tebyg i broses fewnol chwythu'r chwiban a ychwanegwyd i'r llwyfan govService ac i'r data a'r camau gwarchod / cyfyngiadau data a chyfreithiol gael eu rhoi yn eu lle. Fodd bynnag, efallai nad yw defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo y gallant adrodd am faterion o'r fath fel hyn a bod yn well ganddynt gael cyngor, eu cyfeirio at wasanaethau mwy arbenigol a chyswllt wyneb yn wyneb â'r ymarferwyr perthnasol.
- Yr oedd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu am wneud yn glir fod y System Tai ac Adeiladu ar gyfer tenantiaid, gyda'r contract am y system newydd i fod ar ei ffurf derfynol gyda'r darparwr erbyn diwedd Ebrill a'r gweithredu i ddigwydd dros gyfnod o 12 mis, gan gynnwys y dewis i gyflwyno'r system yn raddol fel y gwnaed gyda govService.
- Tynnodd H. Smith (Cynrychiolydd Tenantiaid) at ei phrofiad hi wrth gysylltu â C1V dros y ffôn, gorfod dioddef amseroedd aros hir, ac achlysur pan na chafodd cais ei gofnodi. Dywedodd y Rheolwr Gweithred dros Gysylltiadau Cwsmeriaid y byddai'n edrych i mewn i'w phryderon ac esboniodd fod 'ciwio' galwadau yn C1V oherwydd effaith COVID-19 gyda galluedd staff ar 60% oherwydd mwy o absenoldeb a phrinder staff. Gwnaed gwaith i gefnogi'r staff yn ôl i waith ac i leihau cyfraddau trosglwyddo yn ogystal ag edrych i weld sut i lenwi swyddi gwag, e.e. defnyddio'r rhai sy'n gadael ysgol.
- Pwysleisiodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Nugent-Finn nad pawb oedd yn gallu cyrchu dyfeisiadau digidol na'r rhyngwyd ac na fuasent felly yn mynd i mewn i'r system cwsmeriaid newydd. Fodd bynnag, yr oedd yn rhoi tawelwch meddwl i wybod y byddai C1V a dulliau heb fod yn rhai digidol i drigolion neu denantiaid i gysylltu â'r Cyngor gyda'u problemau yn dal ar gael.

Wedi ystyried y cyflwyniad a'r holl faterion a'r oblygiadau oedd ynddo, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – NODI'r cyflwyniad ar Ateb Digidol y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu a C1V.

Rhesymau dros yr argymhellion

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

1024 ADRODDIAD EFFAITH AR Y SIOP UN STOP (CAT) -

Pwrpas yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Gydlynnydd Cefnogi Pobl (Tai) y Cyngor a'r Rheolwr Ardal dros Bobl ym Mro Morgannwg a Phen-y-bont, oedd hysbysu'r Pwyllgor o effaith y gwasanaeth cefnogi Siop Un Stop.

Y pwyntiau allweddol a godwyd yn y cyfarfod oedd:

- Comisiynodd y Tîm Cefnogi Pobl yn yr Adran Tai ein gwasanaethau cefnogaeth tai i helpu pobl ledled y Fro gyda materion tenantiaeth neu eraill. Rhaglen grant wedi ei chyllido gan Lywodraeth Cymru (LIC) oedd hon, ac y mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru wasanaeth tebyg.
- Cyn gweithredu'r gwasanaethau Siop Un Stop, yr oedd dau ddull o gyflwyno cefnogaeth:
 - Cefnogaeth symudol, lle os bydd rhywun yn ymddangos gydag angen am gefnogaeth tai (e.e. risg o ddigartrefedd, ôl-ddyledion rhent, etc.), byddant yn cael eu hasesu a'u gosod ar restr aros, a allai fod yn hir yn dibynnu ar y galw ac yna'n cael gweithiwr symudol fyddai'n mynd i'w gweld ac yn datblygu cynllun cefnogi.
 - Llety gyda chefnogaeth lle deuai pobl i lety penodol oedd gan y Cyngor lle'r oedd cefnogaeth yn cael ei leoli ar y safle.
- Yn dilyn adolygiad o'r gwasanaethau hyn, canfuwyd nifer o 'fylchau' fel rhestrau aros maith a rhai defnyddwyr gwasanaeth hefyd fod yn dod oherwydd nad oedd y gefnogaeth oeddent ei angen o raid yn dod dan y model darpariaeth cefnogaeth symudol na llety gyda chefnogaeth. Oherwydd hyn, datblygwyd y model 'cefnogaeth ymyriad byr' gan y Cyngor ar y cyd â'u partneriaid mewn darparu cefnogaeth, oedd yn golygu cefnogi pobl nad oeddynt ond eisiau cefnogaeth am gyfnod byr gydag anghenion tai brys neu broblemau fel ôl-ddyledion Treth Cyngor, problemau budd-daliadau, etc.
- Yn dilyn ei gymeradwyo gan y Cabinet, aethpwyd ymhellach â'r model newydd hwn gyda chomisiynu 'Siop Un Stop'. Y syniad oedd y byddai adeilad mewn man canolog yn y Fro, gyda staff cefnogi wedi eu hyfforddi a'u lleoli yno, ac y gallai aelodau'r cyhoedd ddod gyda'u problemau tai a siarad â gweithiwr cefnogi hyfforddedig fyddai'n rhoi cyngor a chefnogaeth. Dyfarnwyd y contract i redeg y gwasanaeth galw heibio i Pobl yn 2020.
- Oherwydd COVID-19, bu'n rhaid i'r gwasanaeth 'galw heibio' newydd hwn ymaddasu, e.e. darparu gwasanaeth teliffon er myn lleihau nifer y bobl fyddai'n dod i'r swyddfeydd a rhedeg gwasanaeth apwyntiadau i'r sawl oedd

yn dal i fod eisiau cyfarfod wyneb yn wyneb. Hefyd, mewn rhai achosion, roedd y staff wedi mynd allan i weld pobl mewn angen.

- Bellach, roedd modd darparu gwasanaethau cefnogi yn gynt o lawer, yn fwy effeithiol a phan oedd ei angen i fwy o ddefnyddwyr gwasanaeth trwy ddefnyddio'r model Siop Un Stop, gyda mwy na 1,700 o unigolion wedi eu cefnogi gan y gwasanaeth newydd. Cafodd hefyd effaith anuniongyrchol ond cadarnhaol ar aelwydydd a theuluoedd yr unigolion hynny.
- Y Siop Un Stop yn awr oedd y gwasanaeth cefnogi mwyaf yn gweithredu yn y Fro, ar sail cyfanswm nifer y defnyddwyr gwasanaeth.
- Yr oedd gweithwyr cefnogi yn y lleoliad, yn ogystal ag ymdrin â materion yn y fan a'r lle ac unrhyw 'enillion sydyn' y gellid eu cael i ddefnyddwyr gwasanaeth, hefyd yn asesu pobl am unrhyw anghenion tymor hwy fydd ganddynt a'u cyfeirio ymlaen at y gefnogaeth briodol.
- Cafodd y Siop Un Stop hefyd effaith gadarnhaol ar y rhestr aros Cefnogi Pobl, gyda'r nifer o bobl ar y rhestr yn gostwng i 50 a'r gweddill ar y rhestr hefyd wedi eu hasesu trwy'r Siop Un Stop er mwyn ymdrin yn gyflym a rhwydd â hwy.
- Oherwydd llwyddiant y gwasanaeth Siop Un Stop, effaith COVID-19 a'r argyfwng costau byw, yr oedd galw uchel iawn am gefnogaeth y gwasanaeth, a arweiniodd y Tîm Cefnogi Pobl i gomisiynu Pobl i ddarparu gweithiwr cefnogi llawn-amser ychwanegol i weithio yn y Siop Un Stop.
- O ran deilliannau, yr oedd mwyafrif y defnyddwyr gwasanaeth yn gwneud cynnydd ar draws amrywiaeth o feysydd cefnogaeth oedd yn hanfodol ar gyfer cefnogaeth tai, e.e. mewn Hyrwyddo Cynnydd economaidd a Rheolaeth ariannol, Rheoli Llety ac mewn Hyrwyddo lechyd a Lles.
- Dyfynnwyd nifer o astudiaethau achos, o helpu gyda bid Homes4U a grant am nwyddau gwyn hanfodol trwodd at adnewyddu Taliadau Annibyniaeth Personol oedd yn dangos yr help a'r gefnogaeth y gallai'r Siop Un Stop ddarparu.
- O ran gweithredu, mae'r gwasanaeth Siop Un Stop wedi cyflawni mewn nifer o feysydd, er i Covid-19 gael effaith ar lansio'r gwasanaeth megis:
 - Datblygu cysylltiadau a banciau bwyd lleol, gyda chynlluniau yn y 'normal newydd' i gael gwasanaeth 'galw heibio' yn y manau hyn i helpu i nodi anghenion eraill sydd gan ddefnyddwyr y gwasanaethau hyn.
 - Gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) i helpu pobl gyda'u ceisiadau am fudd-daliadau er mwyn cyflymu'r broses iddynt a lleihau'r pwysau a'r achosion sydd wedi cronni yn yr AGPh.
 - Ail-agor y Siop Un Stop yn raddol i ddod wyneb yn wyneb eto, a chadw gwasanaethau o bell ar yr un pryd.
 - Gwell cyswllt gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill er mwyn darparu gwasanaethau/ meddygfeydd yn y Siop Un Stop, e.e. Cymunedau dros Waith, MIND a Shelter, yn ogystal â Thîm Atebion Tai y Cyngor.
 - Hefyd, yr oedd cynlluniau i ddarparu gwasanaethau 'galw heibio' ledled Bro Morgannwg, e.e. Canolfan Dysgu Oedolion Palmerston, Coleg y Barri yn ogystal â'r banc bwyd a chynnal 'dyddiau agored' yn y Siop Un Stop.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

- Holodd y cadeirydd am ddarpariaeth iechyd meddwl a chefnogaeth i ddefnyddwyr y Siop Un Stop, yn enwedig oherwydd pwysau COVID-19, yr argyfwng costau byw, etc., ac esboniwyd y cafwyd trafodaethau'n gychwynnol gyda MIND i ddarparu'r gefnogaeth hon, ond yn y cyfamser, edrychwyd ar wasanaethau eraill y trydydd sector i helpu gyda'r ddarpariaeth hon yn ogystal â chyfeirio at ddarpariaeth statudol, e.e. apwyntiad gyda meddyg teulu. Byddai modd darparu gwasanaethau a chefnogaeth ddigidol ar-lein i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â phroblemau iechyd meddwl fel cyfarfodydd ar-lein gyda chwnselydd neu weithiwr cymdeithasol, a darparu ystafell wrthsain yn y Siop Un Stop i helpu i hwyluso hyn. Hefyd cafwyd sesiynau galw heibio yn Tadross, lle'r oedd yr unigolion digartref mwyaf cymhleth ar y pryd. Darparwyd amgylchedd croesawgar yn y Siop Un Stop i beri fod pobl yn gyfforddus i ddod i mewn a thrafod materion iechyd meddwl ac eraill, a dulliau o gefnogi.
- Ar gwestiwn dilynol y cadeirydd am ystadegau nifer defnyddwyr gwasanaeth y Siop Un Stop oedd a phroblemau iechyd meddwl, dywedodd y Cydlynedd Cefnogi Pobl y byddai'n rhoi'r manylion diweddaraf i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd wedi'r cyfarfod.
- Ynghylch cais y Cynghorydd Aviet a oedd rhywun wrth y ddesg flaen neu'r dderbynfa petai pobl yn dod i'r Siop Un Stop a gweld pobl wyneb yn wyneb ac a oedd ystafell breifat i ddefnyddwyr gwasanaeth drafod materion heb fod yn gyhoeddus, esboniwyd bod derbynfa gyda gweithwyr cefnogi, yn ogystal â dau 'pod' cyfweld a mannau eraill y gellid eu defnyddio ar gyfer trafodaethau preifat yn y lleoliad. Gallai cleientiaid hefyd ofyn i gael siarad â gweithwyr cefnogi mewn mannau eraill hefyd.
- Holodd y Cynghorydd Nugent-Finn am ddarparu nwyddau gwyn hanfodol i ddefnyddwyr gwasanaeth trwy'r Siop Un Stop a phwy gludodd yr eitemau hyn iddynt, yn ogystal â gofyn a oedd y gwariant hwn yn cael ei oruchwylio mewn rhyw fodd. Esboniwyd fod defnyddwyr gwasanaethau yn cael help i wneud cais neu i gyrchu cyllid dewisol / talebau (i brynu eitemau mewn siop benodol) fyddai wedyn yn cael eu defnyddio i brynu nwyddau gwyn, ac a allai gynnwys costau cludo hefyd. Byddai arian o'r fath i ddefnyddwyr gwasanaeth i'w ddefnyddio heb gefnogaeth, oni bai eu bod eisiau help gan y Siop Un Stop / darparwyr cefnogaeth eraill, neu, mewn llawer achos, eu bod yn cael talebau i'w defnyddio mewn siopau penodol yn unig.
- Holodd G.Doyle (Cynrychiolydd Tenantiaid) sut yr oedd y Siop Un Stop yn hysbysebu ei hun a'i gwasanaethau, ac esboniwyd fod COVID-19 wedi cael effaith ar hysbysebu, a'r angen i ddarparu gwasanaeth o bell. Fodd bynnag, pan agorodd y Siop Un Stop gyntaf, gwnaed peth hysbysebu ar Facebook ac mewn cymunedau lleol. Gyda llacio cyfyngiadau COVID-19, byddai'r gwasanaeth yn cael ei ail-lansio, gan gynnwys mwy o hysbysebu a hyrwyddo. Yr oedd y gwasanaeth hefyd wedi ei leoli mewn man amlwg ar Heol Holltwn, y Barri.
- Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu fod gwaith estyn allan fyddai'n cael ei wneud yn y ganolfan prosiect bwyd ac adnoddau ym Mhenarth fel rhan o ymdrech i estyn allan i bobl nad oedd yn gallu neu'n dymuno cymudo i Swyddfeydd y Cyngor na'r Siop Un Stop yn y Barri.

Wedi ystyried y cyflwyniad a'r holl faterion a'r oblygiadau oedd ynddo, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r effeithiau cadarnhaol hyd yma.
- (2) NODI'r cyfleoedd posibl yn y dyfodol i ehangu'r ystod o wasanaethau a ddarperir o'r Siop Un Stop.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

1025 CREDYD CYNHWYSOL A COVID-19 – EFFEITHIAU RHENTI (CAT) -

Pwrpas yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd gan Reolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus, oedd gosod allan effaith COVID-19 a chyflwyno Credyd Cynhwysol (CC) i denantiaid y Cyngor ac incwm o renti. Dyma oedd y pwyntiau allweddol:

- Cafwyd cynnydd sylweddol mewn ôl-ddyledion rhent tenantiaid yn dilyn cyflwyno Credyd Cynhwysol, a gwaethygyd hyn gan COVID-19. Yr oedd y sefyllfa ym Mro Morgannwg yn adlewyrchu'r duedd genedlaethol ac wedi gweld ôl-ddyledion yn codi o 1.7% i 3.2% o gyfanswm y rhôl rhent. Mewn termau ariannol, yr oedd hyn yn gynydd mewn ôl-ddyledion o ryw £380k i £695k.
- Deilliodd yr uchod o nifer o broblemau economaidd oedd yn ymwneud â COVID-19 e.e. ffyrlo, llai o oriau gwaith a thenantiaid yn colli swyddi yn ystod cyfyngiadau a chyfnodau clo COVID-19.
- Gwnaed yr effaith ar ôl-ddyledion rhent yn waeth wrth i fwy o denantiaid symud i CC.
- Yr oedd gan denantiaid oedd yn derbyn CC ôl-ddyledion uwch na'r rhai oedd yn derbyn Budd-dal Tai (BT) neu denantiaid nad oedd yn derbyn budd-daliadau o'r fath.
- Yr oedd cyfran uchel o'r arian dyledus mewn ôl-ddyledion rhent gan bobl oedd yn derbyn CC, sef 81% o gyfanswm dyledion holl denantiaid y Cyngor.
- Ar hyn o bryd yr oedd 1,093 o denantiaid Cyngor oedd yn hawlio CC, ac y mae'r ffigwr hwn yn debygol o godi.
- Fodd bynnag, esboniwyd, pan symudodd pobl i CC, y byddai dyledion yn cynyddu am gyfnod o amser, ond yna'n sefydlogi wrth i bobl ddod i arfer rheoli eu harian a thalu eu rhent mewn pryd. Oherwydd hyn, byddai'r ddyled yn dechrau gostwng yn raddol, a dyna oedd y profiad a ddeilliodd o rai o'r astudiaethau peilot a wnaed gan Gynghorau a fabwysiadodd y budd-dal hwn yn gynnar. Yr oeddem eisoes wedi dechrau gweld 'gwastadhau' ôl-ddyledion ym Mro Morgannwg.
- Yng nghyswllt hyn, bu newidiadau i'r Llysoedd/ prosesau cyfreithiol ynghylch ôl-ddyledion rhent o ganlyniad i COVID-19, e.e. ymestyn y cyfnod rhybudd i landlordiaid cyn y gellid gwneud cais i'r Llysoedd am feddiannau ar sail methu â thalu rhent, cau ac yna ail-agor y Llysoedd, yn ogystal â rhoi diwedd ar y moratoriwm dros dro ar hawliadau Llys Sirol am Feddiannu gan landlordiaid.

- Oherwydd ail-agor y llysoedd, etc. ac mewn nifer bychan o achosion lle nad oedd tenantiaid o bosib wedi talu eu rhent oherwydd bod y llysoedd ar gau a'r moratoriwm ar ôl-ddyledion rhent, yr oedd y tenantiaid hyn yn awr yn dechrau ad-dalu'r dyledion hyn mewn symiau go fawr oherwydd ail-godi'r risg o gamau cyfreithiol (er bod gorfodi yn cael ei ystyried fel yr ateb olaf un mewn achosion o'r fath).
- Ar waetha'r effeithiau a'r heriau hyn, erys y lefelau ôl-ddyledion am Gyngor Bro Morgannwg ymysg yr isaf o blith awdurdodau lleol Cymru oedd wedi cadw eu stoc tai cymdeithasol.
- Amlinellwyd hefyd y gwahanol fathau o ymyriad a chefnogaeth y gallai'r Cyngor ddarparu er mwyn helpu tenantiaid gydag ôl-ddyledion rhent, etc. Er enghraifft, helpodd y gwasanaeth Cyngor Ariannol mewnol 931 o aelwydydd dros y deuddeng mis diwethaf i gael £422,429 mewn incwm ychwanegol o ganlyniad i hawlio budd-daliadau lles ychwanegol, symud i dariffau rhatach neu sicrhau grantiau neu daliadau yn ogystal â'u helpu i reoli eu harian yn fwy effeithiol, a lle bo angen, cyfeirio at y Tîm Cefnogi Pobl, etc. am fwy o help. Lle'r oedd tenantiaid yn wynebu lefelau tebyg iawn o ôl-ddyledion rhent a dyledion, gellid cynnig cyngor arbenigol o'r fath yn gyflym.
- O ran mathau eraill o gymorth, byddai'r tenantiaid hynny mewn dyled yn derbyn nifer o negeseuon atgoffa fel rhan o'r broses o adfer dyledion, oedd yn cynnwys llythrau, ymweliadau a defnyddio trefniadau ad-dalu i bobl nad oedd mewn sefyllfa i dalu symiau mawr o arian ar y tro ac yn seiliedig ar randaliadau realistig a fforddiadwy. Hefyd, pan aeth pobl ar CC am y tro cyntaf, cysylltodd y Cyngor a hwy i gynnig cyngor a chefnogaeth ac anfon negeseuon awtomatig i dalu (e.e. trwy negeseuon testun). Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen defnyddio Trefniadau Talu Amgen (TTA) i dalu costau tai CC yn uniongyrchol i'r Cyngor / landlord.
- Troi allan oedd y dewis olaf un i'r Cyngor a hynny unwaith i bob ffordd arall gael eu defnyddio; yn ystod COVID-19 nid oedd y Cyngor wedi troi neb allan.
- Byddai'r dyfodol yn heriol, gyda chostau byw uwch ac yn enwedig gostau nwy a thrydan cynyddol, a fyddai'n rhoi llawer o denantiaid mewn caledi ariannol. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn ceisio ateb yr heriau hyn, e.e. trwy ddarparu pecynnau bwyd i'r tenantiaid hynny mewn tloedi bwyd (trwy fwy o gyllid grantiau) ac oedd ag ôl-ddyledion rhent. Byddai'r Tîm Incwm a'r Ymgynghorwyr Ariannol felly yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r tenantiaid a llyfnhau unrhyw drosi i CC, yn ogystal â'u helpu i dalu eu rhent.
- Dymunai'r Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu ychwanegu ei fod yn cael ei gydnabod ar lefel gorfforaethol fod yr effeithiau a ddisgrifiwyd uchod hefyd yn effeithio ar y gymuned ehangach a bod y Cyngor yn cydgyrdio'r holl weithgareddau o ran y gwasanaethau statudol yn ogystal â'r trydydd sector a gwasanaethau cymunedol fel y gallai'r holl drigolion gyrchu cefnogaeth a gwasanaethau o'r fath yn yr un modd, yn ogystal â defnyddio cefnogaeth gan gyrrff fel Vale Heroes, fu'n effeithiol pan oedd COVID-19 ar ei waethaf.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, holodd H. Smith (Cynrychiolydd Tenantiaid) a oedd yn dal yn wir, pan oedd pobl yn hawlio CC, eu bod yn cael eu talu bedair wythnos yn ôl wedi aros am chwe wythnos, a thrwy hynny gollu pythefnos o fudd-daliadau, oherwydd bod hyn wedi cael effaith ar rai o'r tenantiaid yr oedd hi wedi siarad â hwy. Esboniwyd bod y cyfnod aros hwn a bod y 'bwllch' o bythefnos am CC yn awr wedi

ei symud neu ei leihau, ond byddai hyn yn cael ei gadarnhau gyda'r Tîm Cyngori am Arian, a byddai'r Cynrychiolydd yn cael diweddariad pellach.

Wedi ystyried y cyflwyniad a'r holl faterion a'r oblygiadau oedd ynddo, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – NODI'r adroddiad sy'n amlygu effaith Covid-19 a chyflwyno'r Credyd Cynhwysol i denantiaid ac incwm rhent y Cyngor.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

1026 STRATEGAETH ATAL DIGARTREFEDD 2018-2022 - ADRODDIAD MONITRO (CAT) –

Pwrpas yr adroddiad, fel yr amlinellwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu, oedd rhoi'r trydydd diweddariad a'r un diwethaf i'r Pwyllgor ar gynnydd mewn gweithredu'r Strategaeth Atal Digartrefedd a'r Cynllun Gweithredu am 2018-22, sydd bellach yn dod i ben, a'r camau nesaf ym meddylfryd strategol y Cyngor at y dyfodol, wedi 2022.

Gosododd Deddf Tai (Cymru) 2014 ofyniad statudol ar awdurdodau lleol i gynnal adolygiad o wasanaethau digartrefedd a chynhyrchu Strategaeth Digartrefedd yn gosod allan sut y byddai pob Cyngor, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill, yn nodi ac yn datblygu'r gwasanaethau sydd eu hangen i helpu a chefnogi'r sawl sydd mewn angen tai. Gosododd hyn hefyd nifer o ddyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol o ran digartrefedd, oedd yn cynnwys darparu cymorth i unrhyw un oedd dan fygythiad digartrefedd, waeth beth oedd y flaenoriaeth angen neu gysylltiad lleol ac yn gynharach, yn ogystal â phwerau newydd i Gynghorau gyflawni eu dyletswydd digartrefedd yn y sector rhentu preifat.

O ran y Cynllun Gweithredu, roedd y rhan fwyaf o'r camau wedi eu cyflawni ar waethaf COVID-19. Fodd bynnag, ni fu modd cwblhau nifer fechan o gamau oherwydd gwahanol ffactorau, er enghraifft:

- Datblygu Hysbyseb Treigl Homes4U: roedd y cynllun i hysbysebu eiddo cyn gynted ag y maent yn dod ar gael wedi ei atal (sy'n cael eu hysbysebu'n wythnosol ar hyn o bryd), ond byddai yn bwrw ymlaen unwaith i'r system TGCh Tai newydd gael ei rhoi ar waith.
- Cyflwyno hyfforddiant parodrwydd am denantiaeth yn y system carchardai: nid oedd y cam hwn yn cael ei gefnogi gan asiantaethau cyfiawnder gan eu bod yn teimlo y byddai hyn yn dyblygu'r mentrau sy'n cael eu cyflwyno'n fewnol trwy'r system carchardai. Byddai'r Cyngor yn parhau i gadw golwg ar hyn, a phetaent yn credu nad oedd y gwasanaethau hynny'n briodol ac nad oeddent yn cael effaith ar ddigartrefedd, yna byddai'r Cyngor yn ail-gysylltu.
- Strategaeth Dim Ymwneud gyda chleientiaid mewn llety dros dro: ar waethaf oedi oherwydd COVID-19, yn ogystal â natur gymhleth ymddygiad y cleientiaid oedd angen eu trin fel rhan o hyn, yr oedd y Tîm Cefnogi Pobl yn

edrych ar yr arferion gorau gan yr holl ddarparwyr llety. Y bwriad oedd i'r Cyngor fabwysiadu'r arferion hynny fel y byddai gan bobl mewn gwahanol fathau o lety yr un ymateb neu ymateb tebyg o ran peidio ag ymwneud.

- Dadansoddiad o anghenion cefnogaeth cleientiaid mewn llety dros dro: mae'r dadansoddiad hwn bellach wedi ei gynnal ond heb ei fabwysiadu'n ffurfiol eto.

Yr oedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r pwysau arwyddocaol cyson ar y Gwasanaeth Atebion Tai a'r gwasanaethau cefnogi yn deillio o COVID-19 a'r camau ychwanegol a gymerwyd. Yr oedd heriau cyson yr oedd angen i'r Gwasanaeth Atebion Tai ymdrin â hwy, e.e. lliniaru'r pwysau oedd yn dal i fod ar lety dros dro ac yn enwedig demograffeg tai allweddol penodol megis aelwydydd un person, yr ymdriniwyd â hwy eisoes gan ymarferiad Gorchwyl a Gorffen diweddar y Pwyllgor: cafodd ei argymhellion eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Byddai argymhellion y grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd yn help i fod yn sail i'r strategaeth newydd. Cafodd COVID-19 hefyd effeithiau andwyol ar ddewisiadau tai yn y sector rhentu preifat, ac yr oedd y Cyngor hefyd yn gweithio i ymdrin a datrys y rhain.

Yn olaf, datblygwyd strategaeth pedair-blynedd newydd sydd yn y cyfnod drafft ar hyn o bryd ac a oedd wedi golygu ymgynghori ag asiantaethau statudol ac anstatudol i ddatblygu ei themâu a'i gamau allweddol. Byddai hyn yn cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru toc iddynt hwy ei ystyried. Yn y pen draw, y bwriad oedd i'r strategaeth hon fynd yn ôl i'r Cabinet a Chraffu i'w ystyried a'i fonitro. Crybwyllwyd hefyd mai strategaeth ar y cyd fyddai hon, gan gynnwys digartrefedd a chefnogi pobl, gan gydnabod fod cyswllt agos rhwng digartrefedd a bregusrwydd, a bod angen asio cyllid er mwyn mynd i'r afael â'r naill fater a'r llall.

Soniodd y cadeirydd am esiampl y llety dros dro newydd a llwyddiannus yn Heol y Cwrt, a gofynnodd a oedd y Cyngor am godi unedau tebyg mewn mannau arall yn y Fro. Esboniwyd fod llawer o safleoedd dan sylw ar gyfer datblygiadau tai o'r fath, ond yn y cyfnod cynnar iawn o fantoli dewisiadau yr oedd y rhain, e.e., fod y Cyngor yn edrych ar ddichonoldeb gosod trydan o'r prifion a charthffosiaeth mewn safleoedd o'r fath.

Yna, wedi ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Strategaeth Atal Digartrefedd a'r Cynllun Gweithredu.
- (2) NODI'r camau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys a'r pwysau sylweddol ar y gwasanaeth, ei staff a'i adnoddau o ganlyniad i bandemig COVID.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.